Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



# Datblygu prentisiaethau ar gyfer economi Cymru

ESF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your Future
European Social Fund

Ymgynghoriad ar gyfer pobl ifanc

**Mae gan Gymru un o'r systemau prentisiaethau gorau yn y DU.**

**Mae prentisiaeth yn ffordd i ennill cyflog a gweithio ochr yn ochr â staff profiadol i ddysgu sgiliau sy'n benodol i'r swydd. Mae prentisiaid yn cael eu cyflogi tra'u bod nhw'n dysgu ac yn ennill cymwysterau.**

Gall prentisiaethau fod ar:

**Lefel 2** – Prentisiaethau Sylfaen (fel TGAU gradd A–C)

**Lefel 3** – Prentisiaethau (fel Safon Uwch)

**Lefel 4** – Prentisiaethau Uwch (fel gradd blwyddyn gyntaf)

**Mae pob £1 rydyn ni'n ei gwario ar brentisiaethau'n creu £18 ar gyfer economi Cymru.**

**Mae prentisiaethau'n chwarae rhan bwysig mewn cadw a thyfu gweithlu medrus yng Nghymru, ac maen nhw'n helpu i fynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc hefyd.**

**Yng Nghymru, mae'r ffigyrau diweddaraf yn dangos bod gennym ni fwy na 51,000 o brentisiaid yn gweithio i ennill cymwysterau a sgiliau fel hyn.**

**Mae Llywodraeth Cymru eisiau i brentisiaethau fod y gorau y gallan nhw fod fel eu bod nhw'n diwallu anghenion pobl ifanc a chyflogwyr heddiw ac yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod yna ddigon o brentisiaethau ym maes gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM).**

## Gweledigaeth

**Rydyn ni eisiau system brentisiaethau sy'n:**

- **helpu economi Cymru i dyfu a ffynnu**
- **diwallu anghenion yr economi heddiw ac yn y dyfodol**
- **rhoi cyfleoedd i bobl ifanc newid eu bywydau er gwell.**

**Rydyn ni eisiau system brentisiaethau y mae gan gyflogwyr, rhieni/gofalwyr ac eraill feddwl mawr ohoni fel gwir opsiwn i bobl ifanc gael sgiliau, cymwysterau a chyflogaeth.**

**Mae'r llyfryn yma'n dweud wrthych chi am y newidiadau rydyn ni eisiau eu gwneud i'r system brentisiaethau, ac rydyn ni eisiau cael gwybod beth yw'ch barn chi ar hyn.**

## Rhesymau

Rydyn ni eisiau gwneud y newidiadau yma oherwydd:

- mae'r economi'n newid ac mae ar fusnesau angen prentisiaid sydd wedi'u hyfforddi ar lefelau uwch
- mae ffocws prentisiaethau wedi bod ar Lefel 2 (Prentisiaethau Sylfaen) ac nid yw hyn, yn aml, yn arwain at swyddi ar dâl da
- rydyn ni eisiau annog mwy o bobl rhwng 16 a 19 oed i ddechrau prentisiaethau
- gallai cyflogwyr yng Nghymru sy'n rhedeg prentisiaethau fuddio o chwarae rhan fwy mewn datblygu neu gynllunio'r prentisiaethau
- nid oes yna ddigon o brentisiaethau Lefel 3 ym maes STEM
- mae'r system brentisiaethau yn Lloegr yn newid ac mae safonau prentisiaethau newydd sydd wedi'u cynllunio gan gyflogwyr yn ei disodli.

Mae hyn yn golygu na fydd prentisiaethau yn Lloegr yr un fath â rhai Cymru ac efallai na fydd hi yr un mor hawdd eu trosglwyddo nhw rhwng swyddi.

Fe allai hyn achosi problemau i gyflogwyr sy'n gweithio ledled y DU ac i bobl ifanc sydd eisiau symud i mewn i Gymru neu allan o Gymru.



## Cwestiwn

Beth yw'ch barn chi ar brentisiaethau?

Sylw

# Dyma'r newidiadau rydyn ni eisiau eu gwneud:

## 1 Rydyn ni eisiau i brentisiaethau fod yn gryf ac yn addas i gyflogwyr ac i ddysgwyr.

Mae'r systemau prentisiaethau gorau yn rhai:

- sydd â phawb yn cydweithio mewn partneriaeth
- sydd wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion cyflogwyr.

Felly, rydyn ni o'r farn y dylai cyflogwyr chwarae rhan fwy mewn cynllunio a datblygu fframweithiau prentisiaethau o'r cychwyn cyntaf. Ond bydd anghenion pobl ifanc a thwf yr economi'n parhau i fod yn rhan bwysig o bob cynllun prentisiaeth newydd.

Cynllun o bob cyfnod y mae'n rhaid ichi ei gyflawni i basio'r brentisiaeth yw **fframwaith prentisiaeth.**



## 2 Rydyn ni eisiau rhoi ffocws newydd i raglenni prentisiaethau.

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod gan bobl gymaint o ffyrdd â phosibl i gael swydd a chael eu cyflogi.

Weithiau, mae pobl sy'n gweithio'n barod yn dechrau prentisiaethau ac nid ydynt yn gwneud fawr o wahaniaeth i'w cyfleoedd am swyddi. Nawr bod ein hadnoddau'n dynn, mae angen inni edrych i weld ai dyma'r ffordd orau o ddefnyddio arian.

Rydyn ni eisiau newid y ffocws fel bod prentisiaethau y mae'r llywodraeth yn eu hariannu dim ond ar gael i bobl sydd mewn swydd newydd, neu sydd â rôl yn eu swydd, y mae angen iddyn nhw ennill sgiliau newydd a dysgu ar ei chyfer. Fe fydd hyn yn helpu pobl i ddatblygu eu gyrfaoedd a chael swyddi gwell yn y dyfodol.

## ? Cwestiwn

Ydych chi'n meddwl bod hyn yn syniad da?

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod

Sylw

## ? Cwestiwn

Ydych chi'n meddwl bod hyn yn syniad da?

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod

Sylw

## 3 Rydyn ni eisiau mwy o brentisiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pobl ifanc yn gallu cael eu hyfforddiant gwaith yn Gymraeg os ydyn nhw eisiau hynny.

Rydyn ni eisiau gweithio gyda chyflogwyr a darparwyr eraill sy'n cynllunio prentisiaethau i wneud yn siŵr bod hyn yn digwydd.

## 4 Rydyn ni eisiau i brentisiaethau fod yn gyflawniad Lefel 3+.

Mae yna lawer o brentisiaethau sy'n dechrau ar Lefel 2 (Prentisiaethau Sylfaen) ond, yn aml, nid yw'r lefel yma'n arwain at swyddi ar dâl da. Fe fyddai cael prentisiaethau sy'n cynnwys sgiliau a dysgu Lefel 2, ond sy'n cael eu cwblhau ar Lefel 3 ac uwch, yn cefnogi pobl ifanc ac yn cefnogi ein nod ni i ddiwallu anghenion yr economi am sgiliau.

Pe bai pob prentisiaeth yn dechrau ar Lefel 3, fe fyddem ni'n:

- ceisio gwneud yn siŵr bod yna raglen ddysgu briodol ar gael o hyd ar Lefel 2
- gweithio gyda chyflogwyr i wneud yn siŵr bod yna lwybrau datblygu gyrfa eglur, o ddysgu ar Lefel 2 i brentisiaethau Lefel 3 a thu hwnt.



### ? Cwestiwn

Ydych chi'n meddwl bod hyn yn syniad da?

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod

Sylw

### ? Cwestiwn

Ydych chi'n meddwl bod hyn yn syniad da?

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod

Sylw

## 5 Rydyn ni eisiau edrych ar newid rhan Sgiliau Hanfodol Cymru o brentisiaethau.

Mae prentisiaethau'n cynnwys dysgu rhai sgiliau a ystyrir yn sgiliau angenrheidiol ar gyfer unrhyw swydd.

Mae'r rhain yn cynnwys sgiliau cyfathrebu, mathemateg sylfaenol a sgiliau TGCh, ond weithiau mae pobl yn meddu ar y sgiliau yma'n barod ac yn gallu dangos hyn mewn cymwysterau o'r ysgol neu'r coleg.

Rydyn ni eisiau gallu cydnabod y cymwysterau y mae prentisiaid yn meddu arnyn nhw'n barod yn y meysydd yma os ydy'r fframwaith prentisiaethau yn rhoi sylw i'r un sgiliau a dysgu, fel nad yw pobl yn dysgu am yr un peth ddwywaith.



## 6 Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr nad yw newidiadau i systemau prentisiaethau mewn rhannau eraill o'r DU yn rhoi prentisiaid yng Nghymru dan anfantais.

Yn Lloegr, mae'r system brentisiaethau'n newid.

- Mae safonau sydd wedi'u hysgrifennu gan grwpiau o gyflogwyr yn disodli fframweithiau.
- Mae'r safonau'n canolbwyntio'n gryf ar brentisiaid yn dysgu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer swyddi penodol.
- Mae'n bosibl na fydd rhai safonau'n arwain at gymwysterau, ond bydd prentisiaid yn cael eu hasesu ar ddiwedd y brentisiaeth; bydd graddau'n cael eu pennu ar sail yr asesiad yma.

### ? Cwestiwn

Ydych chi'n meddwl bod hyn yn syniad da?

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod

Sylw

### ? Cwestiwn

Mae'r system yma'n eithaf gwahanol i'r un yng Nghymru. Ydych chi'n meddwl y byddai'n beth da mabwysiadu unrhyw rai o'r syniadau yma yng Nghymru?

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod

Sylw

## 7 Rydyn ni eisiau edrych ar brentisiaethau cyffredinol.

Mae yna rai prentisiaethau mewn meysydd sgiliau cyffredinol y byddai'n bosibl eu trosglwyddo i wahanol swyddi. Mae'r rhain yn cynnwys gweinyddu busnes, gwasanaeth cwsmeriaid a rheolaeth.

Rydyn ni eisiau gweld a ddylem ni fwrw ymlaen â'r mathau yma o brentisiaethau a gweld a ydyn nhw'n brentisiaethau y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi neu eu hangen, gan nad ydyn nhw'n hyfforddi prentisiaid mewn un swydd benodol.

## ? Cwestiynau

Ydych chi'n meddwl bod hyn yn syniad da?

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod

Sylw

Ydych chi'n meddwl bod yna unrhyw beth rydyn ni heb ei gynnwys neu heb feddwl amdano?

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod

Sylw

## Y camau nesaf

Diolch am ddarllen hwn.

Anfonwch eich atebion i:

**Y Gangen Polisi Ôl-16**
**Tŷ'r Afon**
**Bedwas**
**Caerffili**
**CF83 8WT**

e-bost: post16policybranch@wales.gsi.gov.uk

erbyn 24 Ebrill 2015.



© Hawlfraint y Goron 2015
WG24229